OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 1863 (Cy.201) (C.68)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - - 25 Gorffennaf 2011

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddynt gan adran 325(3) a (4) o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tai ac Adfywio 2008 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Cychwyn darpariaethau penodol yn Rhan 3 (materion landlord a thenant)

2. Mae adran 309 (Fflatiau a fu gynt yn fflatiau hawl i brynu a fflatiau eraill: pryniadau cyfrannau ecwiti) o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 yn dod i rym ar 26 Gorffennaf 2011 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan adran 450D o Ddeddf Tai 1985.

3. Mae darpariaethau canlynol Deddf Tai ac Adfywio 2008 yn dod i rym ar 19 Awst 2011:

(1) adran 308 (Fflatiau a fu gynt yn fflatiau hawl i brynu a fflatiau eraill: benthyciadau at ffioedd gwasanaeth); a

(2) adran 309 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym.

Huw Lewis
Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, un o Weinidogion Cymru.

25 Gorffennaf 2011

(**1**) 2008 p.17.